CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
08 Hydref 2024
AM 7.00 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, G Parry, R G Parry, S Jones, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C Thomas, H Owens, J Earnshaw, D Fowlie (Cynghorydd Sir).	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 10.09.24 fel cofnodion cywir. Cyng G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc yn aros i glywed ymhellach gan y Brifathrawes. Mae'r mater yn dal gyda'r Cyngor Sir.
4.2	**Bin Lon Ty Hen** - Mae'r Clerc wedi cyfarfod y Peiriannydd Priffyrdd ac maent wedi cytuno ar leoliad y bin yn Lôn Ty Hen. Bydd y Clerc nawr yn archebu bin.
4.3	**Cysegru tir ychwanegol y Fynwent** - Nid yw'r Eglwys yng Nghymru wedi cysylltu â'r Clerc eto. Cytunwyd i ohirio'r mater tan y gwanwyn/haf nesaf.
4.4	**Draenio y maes Chwarae** - Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan y Cyngor Sir yn gofyn ai dwr glaw neu rywbeth arall sy'n achosi'r problemau draenio. Hyd y gŵyr yr aelodau, dŵr glaw ydyw.
4.5	**Terfyn cyflymder Engedi** - Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan Gomisiynydd yr Heddlu.
	Llofnod…….Cadeirydd 12.11.24

4.6	**Mynwent Bryngwran -** Cyfarfu rhai o'r aelodau yn y fynwent cyn y cyfarfod misol. Cytunwyd bod angen torri ychwanegol y tu ôl i'r rhes olaf o feddau. Diolchwyd i'r Cynghorydd G Parry sydd wedi torri'r gwrychoedd yn ôl. Mae coeden fawr yn Mountain View yn hongian drosodd ac mewn perygl o gwympo. Bydd y Cyng S Jones yn tynnu lluniau o'r llun ac yn eu hanfon at y Clerc. Fe fydd wedyn yn gofyn i'r Cyngor Sir gysylltu â pherchnogion Mountain View i ofyn iddyn nhw dorri'r goeden. Mae eiddew yn tyfu yn y fynwent ond penderfynwyd peidio â thorri'n ôl tan y gwanwyn. Mae angen gwneud lle i dractor fynd at y beddau. Gofynnwyd i'r Clerc gyllidebu ar gyfer llwybr concrit y flwyddyn nesaf.
4.7	**Swings maes Chwarae** – mewn llaw
4.8	**Traffig yn gadael Plas Crigyll** - Mae'r Clerc dal heb dderbyn ymateb gan Mr John Roberts.
4.9	**Dosbarthwr bagiau cwn** - Mae'r Clerc wedi cyfarfod â'r Peiriannydd Priffyrdd ond nid yw'n gwybod dim am y peiriant dosbarthu sydd ar goll. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir.
4.10	**Swyddfa Bost Symudol** - Mae y Post Brenhinol yn cadarnhau y bydd y gwasanaeth yn parhau ym Mryngwran.
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Atgoffodd y Cadeirydd bawb fod Sul y Cofio ar 10 Tachwedd a bydd lluniaeth ar gael yn yr Iorwerth. Bydd y Cyng S Jones yn trefnu i rywun arwain y gwasanaeth a chytunwyd bod y Cadeirydd yn prynu dyddiaduron ar gyfer plant yr ysgol.
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
6.1	**Bus stop Engedi** - Yn dilyn cwyn ynghylch ceir yn parcio yn y gilfan a bysus yn methu stopio, mae'r Cynghorydd H N Evans wedi derbyn ymateb gan y Cyngor Sir. Ariannu yw'r broblem ar hyn o bryd. Maen nhw'n gobeithio cael arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn i'r gilfan ddod yn safle bws ffurfiol gydag arwynebau ac arwyddion newydd.
6.2	**Adolygiad 20mph** - Cytunodd yr aelodau nad ydynt am weld unrhyw un o'r ardaloedd 20mya yn cael eu newid.
	Llofnod…….Cadeirydd 12.11.24

	Cynllunio
6.3	**FPL/2024/201** Cais llawn ar gyfer codi tair annedd ynghyd â darparu mannau parcio ac ardaloedd amwynder cysylltiedig eraill, creu ardal chwarae i blant a gosod paneli solar yn Bro Crigyll, Bryngwran. Cytunwyd bod y Clerc yn gofyn am groesfan ffordd ac i'r ymgeiswyr fod yn gyfrifol am y maes chwarae.
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	**Post Brenhinol** – gweler 4.10
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Ragwort - Cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
9.1	Humphreys Waste £24.00 (Anf 14109), £24.00 (Anf 11960), £24.00 (Anf 13125)
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Parcio Stryd Salem
	Llofnod…….Cadeirydd 12.11.24